

NEWYDDION A MWY



HELO...

Diolch am roi o'ch amser i ddarllen ein bwletin newyddion cyntaf. Menter ar y cyd rhwng SBM Offshore, arbenigwyr byd-eang mewn ynni gwynt arnofiol ar y môr a'r cwmni datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy Cierco - ni yw'r cwmni sy'n cyflwyno datblygiadau Llŷr.

Cawsom y cytundeb ar gyfer lesio datblygiadau Llŷr yn y Môr Celtaidd gan Ystâd y Goron ym mis Gorffennaf 2021. Roedd hyn yn amodol ar Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd. Mae hyn wedi ein galluogi ni i fwrw mlaen ag asesiadau ac arolygon amgylcheddol, er mwyn sicrhau mynediad at y grid ac i geisio cael caniatâd cynllunio drwy'r prosesau statudol.

Mae arolygon benthig a geoffisegol bellach wedi cael eu cwblhau, yn barod ar gyfer cyflwyno Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol yn llawn. Rydym yn paratoi i ddechrau'r ymgynghoriad cyhoeddus yn yr haf a bydd cais cynllunio llawn yn cael ei gyflwyno ddiwedd 2023.

Mae pob prosiect yn canolbwyntio ar ddangos technoleg platfform arnofiol wahanol, gan ddarparu dau lwybr at ddatblygu gwynt arnofiol ar raddfa fasnachol ar y môr. Yn wir, ar hyn o bryd rydym yn gweithio gyda'n partneriaid technoleg ar y rhestr fer i benderfynu ar y ffordd orau o wneud y gorau o ddyluniad ffermydd gwynt arnofiol er mwyn lleihau costau datblygiadau gwynt mawr ar y môr yn y Deyrnas Unedig.

Rydym ni'n gobeithio cyhoeddi ein dewis terfynol o dechnoleg cyn symud ymlaen i'r cam dylunio manwl.

Yn y cyfamser, byddwn yn cynnal **Diwrnodau Ymwybyddiaeth y Cyhoedd** ym mis Gorffennaf i roi cyfle i chi weld manylion cynnar y cynigion a chael gwybod ychydig mwy am y gwaith rydym wedi ei wneud yn y rhanbarth hyd yma. Rydym yn gobeithio'n fawr y byddwch chi'n gallu ymuno â ni.

Mae hwn yn gyfnod cyffrous i ni, ac i chi, wrth i ni weithio gyda'n gilydd i sbarduno newid hollbwysig yng nghymysgedd ynni'r Deyrnas Unedig. Cofiwch gadw mewn cysylltiad a rhoi gwybod i ni os hoffech chi gael sgwrs.

Dymuniadau gorau,

Tessa Blazey

Cyfarwyddwr Polisi a Chysylltiadau Allanol

DIGWYDDIADAU GORFFENNAF

Fe'ch gwahoddir i ddiwrnodau codi ymwybyddiaeth y cyhoedd:

Doc Penfro – Dydd Mercher 5 Gorffennaf
Aberdaugleddau – Dydd Mawrth 11 Gorffennaf
Hwlfordd – Dydd Mercher 12 Gorffennaf

Gweler www.llyrwind.com am ragor o wybodaeth.

GWYBODAAETH AM LLŶR

Mae Datblygiadau Llŷr (a elwir yn Llŷr 1 a Llŷr 2) 31km oddi ar arfordir Sir Benfro, a byddant yn arddangos technoleg ynni adnewyddadwy glân ar y môr i'r genhedlaeth nesaf, cyn diwydiannu. Byddant yn pweru tua 200,000 o gartrefi* gyda 200MW o ynni glân a gwyrdd, unwaith y bydd ar waith erbyn 2027. Gyda gwerth gwariant cyfalaf o dros £800 miliwn ac oes weithredol o 25 mlynedd, bydd pob un o brosiectau Llŷr yn cynnwys rhwng chwech ac wyth tyrbin, a bydd pob un ohonynt yn fwy na 12MW.

*Yn seiliedig ar ystadegau R-UK sy'n defnyddio data BEIS, y diweddaraf hyd at fis Rhagfyr 2022:
<https://www.renewableuk.com/page/UKWEExplained/Statistics-Explained.htm>



CWBLHAU AROLYGON BENTHIG A DAEARYDDOL

Mae cwblhau arolygon benthig a daearyddol yn ddiogel ym mis Chwefror 2023 yn barod ar gyfer cyflwyno Asesiad Effaith Amgylcheddol llawn yn garreg filltir bwysig i Floventis wrth i waith barhau ar ddatblygu Llŷr 1 a 2.

Cynhaliodd y contractwr arolygu N-Sea yr arolwg ar y môr gan ddefnyddio cwch N-Sea Spirit, gan sefydlu model tir sylfaenol a fydd yn cael ei ddatblygu wrth i'r prosiect aeddfedu. Roedd y cwmpas yn cynnwys ardal yr arae ar y môr a choridor llwybr y ceblau allforio gan ddefnyddio technegau arolygu cynefinoedd daearyddol a benthig.




Floventis Energy Limited

Swyddfa 20
Canolfan Arloesi'r Bont Parc Gwyddoniaeth
a Thechnoleg Sir Benfro Doc Penfro
SA72 6UN

www.floventis.com

LLINELL AMSER LLŶR

CYNHYRCHU PWER CYN 2030



DEWCH I GWRDD Â'R TÎM

Rydyn ni wedi agor swyddfa yn Noc Penfro yn y Ganolfan Arloesi Busnes ac rydyn ni wedi cynnull tîm lleol i weithio gyda'r gymuned a phartneriaid cadwyn gyflenwi posibl i rannu ein cynlluniau ac ymgysylltu ag unrhyw un sydd â diddordeb yn Llŷr. Anfonwch e-bost info@llyrwind.com os hoffech chi drefnu cyfarfod.



IOAN JENKINS

Ymgynghorydd Gweithredol



SARA JONES

Rheolwr Rhanddeiliaid



LISA JENKINS

Cyfryngau a Chyfathrebu

CYFLEOEDD AR GYFER BUSNESAU LLEOL

Rydym wedi ymrwymo'n llwyr i fanteisio i'r eithaf ar y cyfle i borthladdoedd a busnesau lleol gefnogi economi gynaliadwy. Bydd Llŷr 1 a 2 yn gweithredu fel prosiectau braenaru i helpu i sefydlu a thyfu gallu diwydiannol gwynt ar y môr arnofiol cynhenid yn rhanbarth y Môr Celtaidd, i baratoi ar gyfer y cyfle masnachol mwy ar gyfer gwynt arnofiol. Mae galluoedd y gadwyn gyflenwi yn dibynnu ar y cyfleoedd a'r buddsoddiad ynddynt yn y 2020au, a sefydlu'r farchnad ynni gwynt ar y môr. Os mai'r gost isaf yw'r unig arwydd o lwyddiant o hyd, neu os yw'r naid i brosiectau GW yn rhy gyflym, mae'n bosibl na fydd y gadwyn gyflenwi yn tyfu nac yn dal i fyny.

Gan hynny, dyfarniadau datblygiadau a phrosiectau fesul cam, fel prosiectau Llŷr, a fydd yn galluogi'r gadwyn gyflenwi leol i ddatblygu. Mae'r Môr Celtaidd yn cynnig cyfle i dyfu'r farchnad yn organig gan ddechrau gyda phrosiectau cam wrth gam ar raddfa 100-200MW, gan dyfu i 1,000MW a thu hwnt. Bydd hyn yn cynorthwyo'r gadwyn gyflenwi leol i dyfu'n wirioneddol gyfochrog, gan dargedu mwy o gynnwys lleol gyda maint cynyddol y prosiectau.

DIGWYDDIAD CWRDD Â PHRYNWYR

JUNE

30

Gyda chymorth Busnes Cymru a GwerthwchiGymru, byddwn yn cynnal digwyddiad ymgysylltu â chyflenwyr ddydd Gwener 30 Mehefin er mwyn cyflwyno'r prosiect ac i ymgysylltu â phartneriaid cadwyn gyflenwi posibl ar hyd a lled Cymru. Byddem wrth ein bodd yn eich gweld chi yno.

GOFYNION Y GADWYN GYFLENWI AR GYFER LLŶR

GWEITHREDU A CHYNNAL A CHADW

Comisiynu, O&M am 25 mlynedd, Ar y Tir canolbwynt/canolfan reoli, O&M yn gyffredinol drwy CTV, MCR drwy Long neu Halio-i-Borthladd, Datgomiisiynu

CEBLAU ALLFORIO, CEBLAU RHYNG-ARÂE A GOSOD

Cebiau allforio wedi eu claddu, Gosod cebiau, Diogelu cebiau

HALIO WTG A BACHU

Halio, Angori, Gosod Angorfeydd, Bachu, Tynnu cebiau, Cysylltiadau

INTEGREIDDIO GENERADURON TYRBINAU GWYNT

Warws, Cymhennu, Trin, Sgaffaldiau, Codi, Gosod

IS-ORSAF AR Y TIR A CHYSYLLTIAD Â'R GRID

Gosod cebiau, Glanfa, Llinellau pŵer, Is-orsaf, Seilwaith Mynediad

CADWYN GYFLENWI AR Y TIR


Caffael dur, Concrit, Gwaith dur, Saernio rhannau, Gweithgynhyrchu

CYMORTH TRAFNIDIAETH, PORTHLADDOEDD A HARBYRAU

Cludo ar y môr, Cludo ar y tir, Storio, Llwytho, Dadlwytho

GOSOD/ADEILADU'R SYLFAEN ARNOFIOL

Warws, Cymhennu, Trin, Sgaffaldiau, Codi, Gosod, Weldio, Paentio, Gosod Concrit, Trafnidiaeth Drom, Lansio



CYMRU YN FFRAINIC



Dan arweiniad Llywodraeth Cymru gyda chefnogaeth Floventis, cymerodd 19 o gynrychiolwyr o gwmnïau cadwyn gyflenwi, porthladdoedd a chyrrff aelodaeth y diwydiant ran mewn taith canfod ffeithiau a masnachu diweddari Fos-sur-Mer. Dyma gyfleuster saernïo SBM Offshore ger Marseille sydd ar hyn o bryd yn cydosod y llwyfannau gwynt arnofiol ar gyfer Provence Grand Large, y cyntaf o ffermydd gwynt arnofiol peilot yn Ffrainc.

Cyn bo hir, bydd prosiect Provence Grand Large yn cael ei ddefnyddio tua 30 cilometr o safle cydosod y platfform yn Fos-sur-Mer.

Dywedodd Vaughan Gething, Gweinidog yr Economi:

“Mae ynni gwynt yn hanfodol er mwyn cyrraedd ein targedau allyriadau sero net uchelgeisiol. Gyda photensial enfawr i fod yn dechnoleg graidd ar gyfer cyrraedd ein nodau hinsawdd, bydd yn darparu diogelwch ynni a gallai helpu i gydbwysu system ynni'r Deyrnas Unedig.

“Mae astudiaethau annibynnol wedi awgrymu y gallai fod cymaint â 50GW o gapasiti trydan ar gael yn nyfroedd Môr Celtaidd y Deyrnas Unedig ac Iwerddon. Bydd gwynt arnofiol hefyd yn darparu cyfleoedd cadwyn gyflenwi carbon isel newydd, yn cefnogi cymunedau arfordirol ac yn creu manteision hirdymor i'r rhanbarth. Dyna pam mae hi mor bwysig ein bod ni'n gweithio gyda datblygwyr ac yn cefnogi busnesau yng Nghymru i'w helpu i ddeall maint y cyfle a meithrin cysylltiadau er mwyn iddynt allu tyfu yng Nghymru.”

YSBRYDOLI'R GENHEDLAETH NESAF



Rydyn ni wedi gweithio mewn partneriaeth â Chanolfan Darwin i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf o sêr STEM yn Sir Benfro.

Bydd y rhaglen bwrsasol yn cynnwys cyfres o weithdai ar ynni gwynt arnofiol ar y môr ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 3 ledled Sir Benfro. Bydd y rhain yn cynnwys trosolwg o newid yn yr hinsawdd, tanwyddau ffosil a manteision ynni adnewyddadwy, gan ganolbwyntio ar liniaru newid yn yr hinsawdd a chyfleoedd swyddi yn y dyfodol.

Bydd ysgolion yn cael dewis rhwng dau weithdy gwahanol – un sy'n canolbwyntio ar ddylunio ac adeiladu llwyfannau a'r llall yn canolbwyntio ar newid yn yr hinsawdd a dylunio tyrbinau gwynt. Bydd adnoddau addysgol yn cael eu creu a'u darparu i'r ysgolion sy'n cymryd rhan.

Edrychwn ymlaen at rannu lluniau yn y bwletin hwn wrth i'r rhaglen ddatblygu.

Rhagor o wybodaeth

Ewch i'n gwefan www.llyrwind.com i gael rhagor o wybodaeth ac i gofrestru i gael yr wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect

DIWRNODAU HYBU YMWYBYDDIAETH Y CYHOEDD

Byddwn yn cynnal tri “Diwrnod Hybu Ymwybyddiaeth y Cyhoedd” a fydd yn agored i'r cyhoedd ym mis Gorffennaf er mwyn rhoi cyfle i unigolion a phartïon sydd â diddordeb weld manylion y cynigion a chael gwybod ychydig mwy am y gwaith rydym wedi'i wneud yn y rhanbarth hyd yma. Bydd cyfle hefyd ym mhob digwyddiad i siarad ag aelodau o dîm y prosiect, i ofyn cwestiynau ac i roi sylwadau ac adborth. Bydd y digwyddiadau hyn yn cael eu cyhoeddi yn y cyfryngau lleol ac ar ein gwefan, www.llyrwind.com lle bydd cyfle hefyd i gofrestru ar gyfer ein e-gylchlythyr wrth i'n cynigion ddatblygu.

Byddwn yn cynnal y digwyddiadau yn y lleoliadau a ganlyn:

DIWRNOD 1 HYBU YMWYBYDDIAETH Y CYHOEDD – DOC PENFRO



Canolfan Ddysgu Gymunedol Doc Penfro, Bush Street, Doc Penfro, SA72 6XF
Dyddiad: Dydd Mercher 5 Gorffennaf
Amser: 15.00 – 19.30

DIWRNOD 2 HYBU YMWYBYDDIAETH Y CYHOEDD – ABERDAUGLEDDAU



Gwesty Tŷ Milford Waterfront, Cei Nelson, Aberdaugleddau, Cymru, SA73 3AA
Dyddiad: Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf
Amser: 15.00 – 19.30

DIWRNOD 3 HYBU YMWYBYDDIAETH Y CYHOEDD – HWLFFORDD



Canolfan Ddysgu Cymunedol Hwlfordd, Stryd Dew, Hwlfordd, SA61 1ST
Dyddiad: Dydd Mercher, 12 Gorffennaf
Amser: 15.00 – 19.30

Byddem yn falch pe baech yn dod i unrhyw un o'r digwyddiadau hyn a byddem yn ddiolchgar pe baech yn estyn gwahoddiad i unrhyw grwpiau neu unigolion a allai fod â diddordeb. Os oes gennych chi gwestiynau, mae croeso i chi gysylltu â ni ar [01646 689275](tel:01646689275).